



**DYFARNIAD^{MEWN}
ANSAWDD
CYDRADDOLDEB^{AC}
AMRYWIAETH**

Y MANTEISION

Dyma'r manteision sydd i'w cael o weithio tuag at y dyfarniad QED:

- Dealltwriaeth glir o beth yw da
- Fframwaith i ymgorffori eich gwaith cydraddoldeb ac amrywiaeth
- Gallu cryfhau egni staff a chanolbwyntio ar gydraddoldeb ac amrywiaeth

Dyma'r manteision sydd i'w cael o ennill dyfarniad QED:

- Gwella profiadau tenantiaid, cwsmeriaid a staff amrywiol
- Fframwaith a chynllun clir ar gyfer gwelliant parhaus
- Tystiolaeth eich bod yn cydymffurfio â'r gofynion rheoleiddio
- Gallu defnyddio logo QED ar draws eich llwyfannau cyfathrebu
- Tynnu sylw at eich cyflawniadau a'ch arferion da

Y BROSES

Mae'r broses QED wedi'i rhannu'n ddau gam.

Mae Cam 1 yn cynnwys y canlynol:

- Arolwg staff a rhanddeiliaid
- Adolygiad bwrdd gwaith
- Ymweliadau / cyfweliadau ar y safle
- Asesiad
- Cynllun gweithredu

Mae Cam 1 yn cymryd oddeutu 12 wythnos i'w gwblhau.

Ar ôl hyn bydd gennych 6 mis i weithio drwy'r cynllun gweithredu ac ymgymryd â'r gweithgareddau sydd wedi'u nodi.

AM Y DYFARNIAD QED

Mae'r QED yn fwy na dim ond nod ansawdd arhwydeddus ar gyfer sector tai Cymru. Mae'n darparu fframwaith cynhwysfawr, penodol i Gymru, ar gyfer adolygu a gwella effaith cydraddoldeb ac amrywiaeth eich sefydliad ym maes llywodraethu, gwasanaethau, mynediad, cynnwys a diwylliant.

Mae methodoleg QED yn arloesol yn y ffordd ddiweddaraf o feddwl ym maes cydraddoldeb ac amrywiaeth ac mae'n cynnig cyfle real i fesur a dangos cynnydd a thrawsnewid meddwl sefydliadol, gwasanaethau a diwylliannau.

Mae QED yn cyfeirio at Ansawdd mewn Cydraddoldeb ac Amrywiaeth, yn ogystal â chlymu'n daclus gyda'r Lladin, 'quod erat demonstrandum' neu, 'Fel hyn y cafodd ei arddangos'.



Ar ôl i'r 6 mis fynd heibio, byddwn yn dechrau Cam 2 y broses, sy'n cynnwys y canlynol:

- Ymweliad cynnydd
- Adroddiad argymhelliad
- Penderfyniad terfynol gan y panel QED

Ar ôl cwblhau'r broses yn llwyddiannus byddwch yn cadw statws y dyfarniad am dair blynedd.



**DYFARNIAD^{MEWN}
ANSAWDD
CYDRADDOLDEB^{AC}
AMRYWIAETH**

AM TAI PAWB

Tai Pawb yw'r prif sefydliad arbenigol cenedlaethol sy'n hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth ym maes tai yng Nghymru.

Rydym yn ysbrydoli pobl a chymunedau i groesawu cydraddoldeb ac amrywiaeth.

Ein nod yw Cymru sy'n fwy cyfartal ac rydym eisiau cyflawni hyn drwy helpu sefydliadau tai i ymgorffori arferion cydraddoldeb ac amrywiaeth gwych yn eu gwaith.

Hefyd mae gennym fwy na 10 mlynedd o brofiad o ddylanwadu'n bositif ar bolisiau, arferion, agweddau a chredoau cenedlaethol.

Rydym yn credu bod gan bawb yr hawl i dai o safon mewn cymunedau cydlynol a diogel.

Rydym eisiau sicrhau gwell mynediad i wasanaethau llety a thai a gwell canlyniadau i grwpiau a dangynrychiolir.

FFIOEDD

Am wybodaeth am ffioedd y Dyfarniad QED, cysylltwch â Ceri:
ceri@taipawb.org /
029 20 537634 neu ewch i'n gwefan ni: **www.taipawb.org/qed**

Cyflwynir i chi gan



promoting equality in housing
hybu cydraddoldeb ym maes tai

MWY NA DIM OND NOD ANSAWDD

www.taipawb.org/qed-cymru